**Camu i Mewn**

**Amrywiaeth yn y Gweithlu Celfyddydau Creadigol ac Iechyd**

**Cyfleoedd Mentora i Ymarferwyr Creadigol**

- Ydych chi'n ymarferydd creadigol (unrhyw ffurf gelfyddydol) sy'n angerddol dros ddefnyddio eich sgiliau i gefnogi iechyd a llesiant pobl?
- Oes gennych chi brofiad byw o un neu fwy o'r canlynol: hunaniaeth mwyafrif byd-eang, eithrio cymdeithasol, iechyd meddwl, Byddar/anabledd, LHDTC+, cefndir economaidd-gymdeithasol isel?
- Oes gennych chi ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn rhaglen chwe mis gyda chefnogaeth, â'r nod o amrywio'r gweithlu celfyddydau ac iechyd?
- Hoffech chi weithio a chael profiad mewn sefydliad celfyddydau ac iechyd mewn ardal sy'n lleol i chi?

Os gallwch ateb yn gadarnhaol i'r uchod i gyd yna gallai Camu i Mewn fod yn addas i chi!

**Beth yw Camu i Mewn?**

Rhaglen hyfforddi a mentora gyffrous ar gyfer carfan o 4 mentai-ymarferwr creadigol o gymunedau lleiafrifedig yng Nghymru yw 'Camu i Mewn'. Dyma'r rhaglen gyntaf o'i math, yn cael ei pheilota ar gyfer de a gorllewin Cymru.

Cynlluniwyd Camu i Mewn gan WAHWN mewn ymgynghoriad â'r sector mewn ymateb i'r diffyg amrywiaeth yn y gweithlu yn y celfyddydau creadigol ac iechyd. Bydd y rhaglen yn helpu i feithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i gyflenwi prosiectau mewn lleoliadau celfyddydau ac iechyd, drwy hyfforddi, cysgodi prosiect byw, mentora a chymorth gan gymheiriaid.

## Beth yw'r Celfyddydau ac Iechyd?

Dros y blynyddoedd diweddar, cafwyd dealltwriaeth gynyddol o'r effaith y gall gweithgaredd creadigol neu ddiwylliannol ei gael ar iechyd a llesiant. Mae'n cynnwys unrhyw brosiect, ymyriad, gweithgaredd neu gomisiwn celfyddydol sydd â'r bwriad o wella iechyd a llesiant. Cynhelir prosiectau celfyddydau ac iechyd mewn amrywiol leoliadau gan gynnwys ysbytai, cartrefi gofal, lleoliadau cymunedol a chelfyddydol, a'r nod yw cefnogi iechyd corfforol a meddyliol. Rhagor o wybodaeth am y celfyddydau ac iechyd

## Partneriaid y Prosiect

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- PeopleSpeakUp
- Datblygu'r Celfyddydau Caerffili
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd

## Beth fydd y rhaglen yn ei gynnwys?

- Cymryd rhan mewn wythnos lawn o hyfforddiant dwys yng Nghaerdydd – 5 diwrnod llawn a gyda'r nos **Llun 24 – Gwener 28 Mehefin**

- Cysgodi ymarferydd/tîm/sefydliad celfyddydau ac iechyd profiadol ar brosiect byw mewn lleoliad iechyd neu gymunedol am hyd at 10 diwrnod (gyda chefnogaeth partneriaid y prosiect) rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref.
- Cymorth mentora wedi'i deilwra
- Cymryd rhan mewn sesiynau rhannu a gwerthuso gyda chymheiriaid.

Cynigir y canlynol i'r menteion:

- Bwrsariaeth o £1,500
- Cymorth a goruchwylio rheolaidd gan gymheiriaid / cymorth llesiant
- Costau llety a theithio
- Costau mynediad

Bydd cysgodi prosiectau byw yn digwydd yn un o'r rhanbarthau canlynol:

- Cyngor Bwrdeistref Caerffili (Datblygu Celfyddydau Cyngor Bwrdeistref Caerffili)
- Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro (Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) *
- Llanelli/Sir Gaerfyrddin (PeopleSpeakUp)
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (Abertawe a Chastell Nedd Port Talbot)

*Nodwch fod dyddiadau cysgodi byw Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda wedi'u gosod, felly os ydych chi'n dymuno cysgodi yn y rhanbarth hwn, rhaid i chi fod ar gael ar y dyddiadau canlynol: **20 Gorffennaf, 27 Gorffennaf, 3 Awst, 10 Awst, 17 Awst, 24 Awst.**

**Sut i gyflwyno cais**

I gyflwyno cais, anfonwch un ochr o destun A4 (mewn dogfen Word neu PDF) **neu** ffeil fideo/sain nad yw'n hirach na 3 munud. Nodwch y canlynol:

- Gwybodaeth amdanoch chi fel artist/person creadigol a'ch dull o hwyluso gweithdy
- Pam fod gennych chi ddiddordeb yn y rhaglen a beth ydych chi'n gobeithio ei gael o'r profiad?
- Beth ydych chi'n disgwyl ei gyfrannu i'r rhaglen?
- Ble rydych chi'n byw a'r rhanbarth yr hoffech chi ymgymryd â'r lleoliad cysgodi ynddo.

Anfonwch hwn drwy ebost at Tom Bevan, Rheolwr Rhaglen Camu i Mewn, stepping@wahwn.cymru cyn hanner nos ar 15 Mai. Gofynnir hefyd i chi gwblhau ffurflen Monitro Amrywiaeth a Chydraddoldeb.

**Llinell amser**

- Dyddiad cau ceisiadau: **Hanner nos 15 Mai**
- Sesiwn Cwrdd â'r Partneriaid: gwahoddir menteion ar y rhestr fer i gwrdd â'r partneriaid ar brynhawn **23 Mai** i glywed mwy am y rhaglen.
- Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu hysbysu erbyn **Mai 31**

Os hoffech drafod unrhyw beth yn benodol am y rhaglen neu'r broses ymgeisio, cysylltwch ag Angela Rogers info@wahwn.cymru

**WAHWN**

Rhwydwaith Celfyddydau, Iechyd a Llesiant Cymru yw'r corff cymorth sector cenedlaethol ar gyfer y celfyddydau, iechyd a llesiant. Mae ein gwaith yn seiliedig ar ddeddfwriaeth allweddol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, a Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Conffederasiwn GIG Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru. Mae ein haelodaeth ar gynnydd ac yn cynnwys yn agos i 900 o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau ac iechyd, gan gynrychioli sectorau'r celfyddydau, iechyd ac addysg uwch a gweithio ar draws yr ystod lawn o ymarfer celfyddydol mewn lleoliadau iechyd, celfyddydau a chymunedol. Mae WAHWN yn falch o'i rôl ganolog mewn nifer cynyddol o fentrau partneriaeth allweddol ac o'i safle yn cynnig llais cenedlaethol i'r sector ar lefel strategol, gan ddangos arfer gorau wrth roi polisïau sy'n bodoli ar waith a dylanwadu ar bolisïau newydd.

**Ein Diben**

Ysgogi datblygu cynaliadwy a thwf sector celfyddydau ac iechyd llewyrchus, cynrychioliadol a chynhwysol yng Nghymru sy'n cysylltu ac yn cefnogi gweithwyr proffesiynol yn y

celfyddydau ac iechyd, ac sy'n hyrwyddo cyfranogiad creadigol. Gweithredu fel archbŵer i ddatgloi twf, ffyniant, iechyd, llesiant a gwydnwch.

**Cyllidir Camu i Mewn gan Gronfa Loteri'r Celfyddydau Iechyd a Llesiant Cyngor Celfyddydau Cymru.**

Stepping In
Camu i Mewn